Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro gwallau yn O.S. 2021/1365 (Cy. 360) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28) ac mae'n cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 473 (Cy. 117)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"), a

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau yn Rheoliadau 2015 a Rheoliadau 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 473 (Cy. 117)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

Gwnaed		*25 Ebrill 2022*
Gosodwyd gerbron Cymru		*Senedd 27 Ebrill 2022*
Yn dod i rym		*25 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**):

(**1**) 1998 p. 30; Gweler adran 43(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. Gweler adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mai 2022.

(3) Mae rheoliad 3 yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 9BA(1)(a) o'r Atodlen, yn lle "blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" rhodder "blwyddyn academaidd ar y cwrs".

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

3.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 13F(2) o Atodlen 4, yn lle "myfyriwr cymwys" rhodder "myfyriwr ôl-raddedig cymwys".

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Ebrill 2022

(**1**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1365 (Cy. 360); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/79 (Cy. 28); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.